



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2004 Rhif 996 (Cy.104)

2004 No. 996 (W.104)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Gorchymyn Moch (Cofnodion,
Adnabod a Symud) (Cymru)
2004**

**The Pigs (Records, Identification
and Movement) (Wales) Order
2004**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys i Gymru yn unig, yn parhau i weithredu Cyfarwydddeb y Cyngor 92/102/EEC ar adnabod a chofrestru anifeiliaid (OJ Rhif L 355, 5.12.92, t.0032) ac yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002. (O.S. 2002/2303 (Cy.228), fel y'i diwygiwyd). Mae'n gwneud y newidiadau sylweddol a ganlyn -

This Order, which applies to Wales only, continues to implement Council Directive 92/102/EEC on the identification and registration of animals (OJ No L 355, 5.12.92, p.0032) and revokes and replaces the Pigs (Records, Identification and Movement) (Interim Measures) (Wales) (No. 2) Order 2002. (S.I. 2002/2303 (W.228), as amended). It makes the following changes of substance -

- Mae'n dileu'r ddarpariaeth ddarfod fel bod gan y Gorchymyn bellach effaith barhaol (erthygl 1).
- Mae'n diwygio'r darpariaethau sy'n ymwneud ag adnabod moch -
 - fel bod rhaid i fochyn dros 12 mis oed fod wedi'i farcio â marc adnabod neu slapfarc (erthygl 14), cyn cael ei symud oddi ar ddaliad, a bod rhaid i fochyn 12 mis oed neu'n iau fod wedi'i farcio yn y ffordd honno neu â marc dros dro (erthygl 15); a
 - fel bod rhaid i fochyn sy'n cael ei fewnforio o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd gael ei adnabod yn naliad y gychfan â thag clust neu datw sy'n cynnwys y llythrennau "UK" ac ar ôl hynny y llythyren "F" (erthygl 16).

Yn ychwanegol at y gofynion uchod, mae'r Gorchymyn yn darparu -

- bod rhaid i fochyn 12 mis oed neu'n iau sy'n cael ei symud i ladd-dy neu farchnad

- It removes the cessation provision so that the Order now has permanent effect (article 1).
- It amends the provisions relating to the identification of pigs so that-
 - before being moved off a holding, a pig over 12 months old must be marked with an identification mark or a slapmark (article 14) and a pig 12 months old or less must be marked in that way or with a temporary mark (article 15); and
 - a pig imported from outside the European Union must be identified at the destination of holding with an eartag or tattoo containing the letters "UK" followed by the herdmark and the letter "F" (article 16).

In addition to the above requirements, the Order provides that-

- a pig 12 months old or less being moved to a slaughterhouse or slaughter market must

gigydda gael ei farcio â marc adnabod neu slapfarc (erthygl 18);

- bod rhaid i fochyn sy'n cael ei symud i sioe, arddangosfa neu i'w allforio a hefyd i'w fridio, lle bwriedir i'r mochyn gael ei ddychwelyd i'r daliad y cafodd ei symud oddi arno, gael ei farcio â marc adnabod unigryw sy'n cynnwys rhif adnabod unigol unigryw (erthyglau 19 a 20).
- Mae'n ychwanegu erthygl 6 sy'n ei gwneud yn ofynnol i feddianwyr lladd-dai gofnodi manylion moch sydd heb eu hadnabod o dan y Gorchymyn hwn.
- Mae'n estyn y cyfnod y mae rhaid cadw cofnodion o 3 blynedd i 6 mlynedd (erthygl 9).

Mae Rhan 2 yn nodi gofynion o ran cadw cofnodion, gan gynnwys y gofyniad i gadw cofnodion symud (erthygl 5), cofnodion gwerthu mewn arwerthiant (erthygl 7) a chofnodion am y nifer o foch ar ddaliad (erthygl 8).

Mae Rhan 3 yn diffinio marciau adnabod (erthygl 10) a slapfarciau (erthygl 12) ac yn pennu'r gofynion ar gyfer tagiau clust (erthygl 11). Mae Rhan 6 yn rheoleiddio symud moch (erthygl 21) a moch anwes (erthygl 22) ac yn darparu ar gyfer cymeradwyo daliadau y gellir symud moch oddi arnynt heb sbarduno'r cyfnod segur yng Ngorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003 (O.S. 2003/1966) (Cy. 211) yn naliad y gyrchfan (erthygl 23).

Mae Rhan 7 yn gwahardd dileu ac amnewid marciau adnabod, ac eithrio o dan rai amgylchiadau (erthyglau 24 a 25).

Mae'r Gorchymyn yn cael ei orfodi gan yr awdurdod lleol (erthygl 27).

Mae torri'r Gorchymyn yn dramgwydd o dan adran 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981, ac yn dwyn cosb yn unol ag adran 75 o'r Ddeddf honno.

Mae Arfarniad Rheoliadol wedi baratoi ar gyfer y Gorchymyn hwn ac fe'i lleolir yn llyfrgell y Cynulliad Cenedlaethol. Gellir cael copïau oddi wrth yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

be marked with an identification mark or a slapmark (article 18);

- a pig being moved to a show, exhibition or for export and also for breeding, where it is intended that the pig shall be returned to the holding from which it was moved, must be marked with an identification mark that includes a unique individual identification number (articles 19 and 20).
- It adds article 6 requiring slaughterhouse occupiers to record details of pigs that have not been identified under this Order.
- It extends the period that records must be retained from 3 to 6 years (article 9).

Part 2 sets out record keeping requirements, including the requirement to keep movement records (article 5), sale records at an auction (article 7) and records of the number of pigs on a holding (article 8).

Part 3 defines identification marks (article 10) and slapmarks (article 12) and specifies the requirements for eartags (article 11). Part 6 regulates the movement of pigs (article 21) and pet pigs (article 22) and provides for the approval of holdings from which pigs may be moved without triggering the standstill period in the Disease Control (Wales) Order 2003 (S.I. 2003/1966 (W.211)) in the holding of destination (article 23).

Part 7 prohibits the removal and replacement of identification marks, except in certain circumstances (articles 24 and 25).

The Order is enforced by the local authority (article 27).

Breach of the Order is an offence under section 73 of the Animal Health Act 1981, punishable in accordance with section 75 of that Act.

A Regulatory Appraisal has been prepared for this Order and placed in the library of the National Assembly. Copies can be obtained from the Animal Health Division, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

2004 Rhif 996 (Cy.104)

2004 No. 996 (W.104)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Gorchymyn Moch (Cofnodion,
Adnabod a Symud) (Cymru)
2004**

**The Pigs (Records, Identification
and Movement) (Wales) Order
2004**

Wedi'u gwneud *30 Mawrth 2004*
Yn dod i rym *31 Mawrth 2004*

Made *30th March 2004*
Coming into force *31st March 2004*

TREFN YR ERTHYGLAU

ARRANGEMENT OF ARTICLES

RHAN 1

PART 1

RHAGARWEINIOL

PRELIMINARY

1. Teitl, cymhwyso a chychwyn
2. Dehongli
3. Trwyddedau, awdurdodiadau a chymeradwyaethau

1. Title, application and commencement
2. Interpretation
3. Licences, authorisations and approvals

RHAN 2

PART 2

CADW COFNODION

RECORD KEEPING

4. Hysbysiadau daliadau
5. Cofnodion symud
6. Cofnodion lladd-dai
7. Cofnodion gwerthu mewn arwerthiant
8. Cofnod o'r nifer o foch ar ddaliad
9. Cadw cofnodion

4. Notification of holdings
5. Movement records
6. Slaughterhouse records
7. Sale records at an auction
8. Record of number of pigs on a holding
9. Records retention

RHAN 3

MARCIAU ADNABOD

10. Marc adnabod
11. Gofynion ar gyfer tagiau clust
12. Slapfare
13. Marciau ychwanegol

RHAN 4

GOFYNYION ADNABOD CYFFREDINOL

14. Adnabod moch dros 12 mis a symudir oddi ar ddaliad
15. Adnabod moch o dan 12 mis a symudir oddi ar ddaliad
16. Adnabod moch a symudir i ddaliad o'r tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd

RHAN 5

GOFYNYION ADNABOD Y CHWANEGOL

17. Gofynion adnabod ychwanegol
18. Symud moch 12 mis oed neu'n iau i ladd-dy
19. Symud moch i sioeau, arddangosfeydd, ac at ddibenion bridio
20. Symud moch i'w hallforio

RHAN 6

RHEOLEIDDIO SYMUDIADAU

21. Symud moch
22. Trwyddedau cerdded ar gyfer moch anwes
23. Daliadau cymeradwy

PART 3

IDENTIFICATION MARKS

10. Identification mark
11. Requirements for eartags
12. Slapmark
13. Additional marking

PART 4

GENERAL IDENTIFICATION REQUIREMENTS

14. Identification of pigs over 12 months moved off a holding
15. Identification of pigs under 12 months moved off a holding
16. Identification of pigs moved on to a holding from outside the European Union

PART 5

ADDITIONAL IDENTIFICATION REQUIREMENTS

17. Additional identification requirements
18. Movement of pigs 12 months old or less to a slaughterhouse
19. Movements of pigs to shows, exhibitions and for breeding purposes
20. Movement of pigs for export

PART 6

REGULATION OF MOVEMENTS

21. Movement of pigs
22. Walking licences for pet pigs
23. Approved holdings

PART 7

AMRYWIOL

24. Dileu marc adnabod
25. Amnewid marc adnabod
26. Cyflwyno dogfennau a chofnodion
27. Gorfodi
28. Dirymu

ATODLEN

COFNOD SYMUDIADAU'R DALIAD

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, gan weithredu ar y cyd wrth arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1 ac 8(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(a) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

PART 7

MISCELLANEOUS

24. Removal of an identification mark
25. Replacement of an identification mark
26. Production of documents and records
27. Enforcement
28. Revocations

SCHEDULE

HOLDING MOVEMENT RECORD

The National Assembly for Wales and the Secretary of State, acting jointly in exercise of the powers conferred upon them by sections 1 and 8(1) of the Animal Health Act 1981(a) make the following Order:

(a) 1981 p. 22. Trosglwyddwyd swyddogaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1981 i "the Ministers" (fel y'u diffinnir yn adran 86 o'r Ddeddf honno) i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Alban mewn perthynas â Chymru, i'r Gweinidog dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141) ac fe'u trosglwyddwyd ymhellach wedyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

(a) 1981 c. 22. Functions conferred under the 1981 Act on "the Ministers" (as defined in section 86 of that Act) were transferred, so far as exercisable by the Secretary of State for Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672); Those functions, so far as exercisable by the Secretary of State for Scotland in relation to Wales, were transferred to the Minister of Agriculture, Fisheries and Food by the Transfer of Functions (Agriculture and Food) Order 1999 (S.I. 1999/3141) and were then further transferred to the Secretary of State by the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food (Dissolution) Order 2002 (S.I. 2002/794).

RHAGARWEINIOL

PRELIMINARY

Teitl, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2004; mae'n gymwys i Gymru, a daw i rym ar 31 Mawrth 2004.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn -

ystyr "ceidwad" ("*keeper*") yw unrhyw berson sydd â gofal a rheolaeth dros foch, boed hynny ar sail dros dro neu barhaol, ond nid yw'n cynnwys person nad yw ond yn cludo moch; a

"ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

ystyr "daliad" ("*holding*") yw unrhyw sefydliad, adeiladwaith neu, yn achos fferm awyr agored, unrhyw le y mae moch yn cael eu dal, eu cadw neu eu trafod;

mae i "daliad cymeradwy" ("*approved holding*") yr ystyr a roddir iddo yn erthygl 23;

mae i "marc adnabod" ("*identification mark*") yr ystyr a roddir iddo yn erthygl 10;

ystyr "marc y genfaint" ("*herdmark*") yw'r cod alffaniwmerig a ddyrennir i genfaint o foch gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unol ag erthygl 4(2);

ystyr "rhif CPH" ("*CPH number*") yw rhif daliad a neilltuir o dro i dro i unrhyw ddaliad neu ran o unrhyw ddaliad gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Trwyddedau, awdurdodiadau a chymeradwyaethau

3. Rhaid i unrhyw drwydded, awdurdodiad neu gymeradwyaeth o dan y Gorchymyn hwn fod yn ysgrifenedig, gall fod yn amodol ar amodau a chaniateir ei hatal, diwygio neu ddirymu yn ysgrifenedig ar unrhyw amser.

Title, application and commencement

1. This Order is called the Pigs (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2004; it applies to Wales and comes into force on 31st March 2004.

Interpretation

2. In this Order -

"approved holding" ("*daliad cymeradwy*") has the meaning given in article 23;

"CPH number" ("*rhif CPH*") means the holding number assigned from time to time to any holding or part of any holding by the National Assembly;

"herdmark" ("*marc y genfaint*") means the alpha numeric code allocated to a herd of pigs by the National Assembly in accordance with article 4(2);

"holding" ("*daliad*") means any establishment, construction or, in the case of an open air farm, any place in which pigs are held, kept or handled;

"identification mark" ("*marc adnabod*") has the meaning given in article 10;

"keeper" ("*ceidwad*") means any person having care and control of pigs, whether on a temporary or permanent basis, but does not include a person who only transports pigs; and

"National Assembly" ("*Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales.

Licences, authorisations and approvals

3. Any licence, authorisation or approval under this Order must be in writing, may be subject to conditions and may be suspended, amended or revoked in writing at any time.

CADW COFNODION**RECORD KEEPING****Hysbysiadau daliadau**

4.-(1) Rhaid i geidwad hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol Cynulliad am yr wybodaeth ganlynol o fewn un mis ar ôl sefydlu daliad -

- (a) cyfeiriad y daliad; a
- (b) enw a chyfeiriad perchennog neu feddiannydd y daliad.

(2) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol roi cod alffaniwmerig ar gyfer pob cenfaint o foch ar y daliad ("marc y genfaint"), ar ôl i'r wybodaeth ym mharagraff (1) gael ei darparu.

(3) Rhaid i geidwad hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol am unrhyw newid neu y chwanegiad at yr wybodaeth ym mharagraff (1) o fewn un mis ar ôl y newid neu'r ychwanegiad.

(4) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i geidwad sydd eisioes wedi hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol.

(5) Rhaid i unrhyw hysbysiad y mae ei angen o dan yr erthygl hon fod yn ysgrifenedig.

Cofnodion symud

5.-(1) Rhaid i geidwad gofnodi pob un o symudiadau mochyn i'w ddaliad ac oddi yno o fewn 36 awr ar ôl y symud.

(2) Rhaid i'r cofnod fod yn y ffurf a nodir yn yr Atodlen.

(3) Os yw'r symud ar gyfer unrhyw ddiben y cyfeirir ato yn erthyglau 19 neu 20 rhaid i'r ceidwad hefyd gofnodi'r rhif adnabod unigol unigryw.

Cofnodion Lladd-dai

6.-(1) Rhaid i feddiannydd lladd-dy, yn ychwanegol at ofynion erthygl 5, gofnodi manylion unrhyw fochyn y deuir ag ef i ladd-dy -

- (a) nad yw wedi'i farcio yn unol ag erthygl 14, yn achos mochyn dros 12 mis oed;
- (b) nad yw wedi'i farcio yn unol ag erthygl 18 yn achos mochyn 12 mis oed neu'n iau; ac
- (c) nad yw'r ddogfen sy'n ofynnol gan erthygl 21 gydagef.

(2) Rhaid i'r manylion i'w cofnodi gael eu cadw ar wahân i'r wybodaeth sy'n ofynnol gan erthygl 5 a rhaid iddynt gynnwys hefyd -

- (a) enw ceidwad y mochyn; a

Notification of holdings

4.-(1) A keeper shall notify the National Assembly of the following information within one month of the establishment of a holding -

- (a) the address of the holding; and
- (b) the name and address of the owner or occupier of the holding.

(2) The National Assembly must issue an alpha numeric code for each herd of pigs on the holding (the "herdmark"), once the information in paragraph (1) has been provided.

(3) A keeper must notify the National Assembly of any change or addition to the information in paragraph (1) within one month of the change or addition.

(4) Paragraph (1) does not apply to a keeper who has already notified the National Assembly.

(5) Any notification required under this article must be in writing.

Movement records

5.-(1) A keeper must record each movement of a pig on or off his or her holding within 36 hours of the movement.

(2) The record must be in the form set out in the Schedule.

(3) If the movement is for any purpose referred to in articles 19 or 20 the keeper must also record the unique individual identification number.

Slaughterhouse records

6.-(1) An occupier of a slaughterhouse must, in addition to the requirements of article 5, record the details of any pig brought to the slaughterhouse that is not -

- (a) marked in accordance with article 14, in the case of a pig over 12 months old;
- (b) marked in accordance with article 18 in the case of a pig 12 months old or less; and
- (c) accompanied by the document required by article 21.

(2) The details to be recorded must be kept separately from the information required by article 5 and must include -

- (a) the name of the keeper of the pig; and

(b) y daliad yr anfonwyd y mochyn oddi arno i'w gigydda.

(b) the holding from which the pig was sent to slaughter.

Cofnodion gwerthu mewn arwerthiant

7.-(1) Mewn marchnad lle gwerthir moch trwy arwerthiant rhaid i feddiannydd y farchnad, ar gyfer pob lot of foch, gofnodi -

- (a) yr wybodaeth yn yr Atodlen;
- (b) enw'r gwerthwr a'r prynwr; a
- (c) rhif y lloc lle y daliwyd pob lot.

(2) Rhaid i'r cofnod gael ei wneud o fewn 36 awr ar ôl y gwerthiant.

Sale records at an auction

7.-(1) At a market where pigs are sold by auction the occupier of the market must, for each lot of pigs, record -

- (a) the information in the Schedule;
- (b) the name of the seller and buyer; and
- (c) the number of the pen in which each lot was held.

(2) The record must be made within 36 hours of the sale.

Cofnod o'r nifer o foch ar ddaliad

8. O leiaf unwaith y flwyddyn rhaid i'r ceidwad gadw cofnodion uchafswm nifer y moch sy'n bresennol fel rheol ar y daliad.

Record of number of pigs on a holding

8. At least once a year the keeper must record the maximum number of pigs normally present on the holding.

Cadw cofnodion

9.-(1) Rhaid i unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo wneud cofnodion o dan y Gorchymyn hwn eu cadw am o leiaf 6 blynedd o ddiwedd y flwyddyn y gwnaed y cofnod ynddi.

Records retention

9.-(1) Any person required by this Order to make records must keep them for at least 6 years from the end of the year in which the entry was made.

(2) Caiff cofnodion fod yn ysgrifenedig neu ar ffurf electronig.

(2) Records may be in written or electronic form.

RHAN 3

PART 3

MARCIAU ADNABOD

IDENTIFICATION MARKS

Marc adnabod

10.-(1) Marc adnabod yw -

- (a) tag clust sydd wedi'i stampio neu wedi'i argraffu â'r llythrennau "UK" ac ar ôl hynny marc y genfaint; neu
- (b) tatw o farc y genfaint sy'n ddarllenadwy am oes y mochyn.

(2) At ddibenion erthyglau 19 a 20 rhaid i farc y genfaint ym mharagraff (1) gael ei ddilyn gan rif adnabod unigol unigryw a neilltuir i'r mochyn gan y ceidwad.

Identification mark

10.-(1) An identification mark is -

- (a) an eartag stamped or printed with the letters "UK" followed by the herdmark; or
- (b) a tattoo of the herdmark that is legible for the life of the pig.

(2) For the purposes of articles 19 and 20 the herdmark in paragraph (1) must be followed by a unique individual identification number allotted to the pig by the keeper.

Gofynion ar gyfer tagiau clust

11. Rhaid i dag clust -

- (a) bod yn hawdd ei ddarllen drwy gydol oes y mochyn;
- (b) bod wedi'i wneud naill ai o fetel neu blastig neu gyfuniad o fetel a phlastig;

Requirements for eartags

11. An eartag must be -

- (a) easy to read throughout the pig's lifetime;
- (b) made of either metal or plastic or a combination of metal and plastic;

- (c) bod yn amhosibl ymhêl ag ef;
- (ch) bod yn amhosibl ei ail-ddefnyddio;
- (d) gallu gwrthsefyll gwres yn ddigonol fel na fydd prosesu'r carcass yn sgil cigydda yn difrodi'r tag clust na'r wybodaeth sydd wedi'i stampio arno;
- (dd) fod o ddylunwaith a fydd yn dal i fod ynghlwm wrth y mochyn heb beri niwed iddo.

Slapfarc

12. Tatw o farc y genfaint a roddir ar ddwy ysgwydd flaen y mochyn yw slapfarc.

Marciau ychwanegol

13. Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn yn atal ceidwad rhag marcio'r mochyn ag unrhyw wybodaeth arall, neu rhag ychwanegu gwybodaeth ychwanegol at y marc adnabod, ar yr amod nad yw'r marciau hyn yn effeithio ar y gallu i darllen y marc adnabod neu'r slapfarc.

- (c) tamper-resistant;
- (d) incapable of re-use;
- (e) sufficiently heat-resistant that neither the eartag nor the information printed or stamped on it can be damaged by the processing of the carcass following slaughter;
- (f) of a design that will remain attached to the pig without being harmful to it.

Slapmark

12. A slapmark is a tattoo of the herdmark which is applied on each front shoulder area of the pig.

Additional marking

13. Nothing in this Order prevents a keeper from marking the pig with any other information, or adding further information to the identification mark, provided that this marking does not affect the ability to read the identification mark or the slapmark.

RHAN 4

GOFYNION ADNABOD CYFFREDINOL

Adnabod moch dros 12 mis oed a symudir oddi ar ddaliad

14. Ni chaiff neb symud mochyn dros 12 mis oed oddi ar ddaliad oni bai ei fod wedi'i farcio â'r canlynol -

- (a) marc adnabod; neu
- (b) slapfarc sy'n ddarllenadwy drwy gydol oes y mochyn a thrwy gydol prosesu ei garcas.

Adnabod moch o dan 12 mis oed a symudir oddi ar ddaliad

15.-(1) Ni chaiff neb symud mochyn 12 mis oed neu'n iau oddi ar ddaliad oni bai ei fod wedi'i adnabod yn unol ag erthygl 14 neu â marc dros dro.

(2) Rhaid i farc dros dro-

- (a) naill ai ar ei ben ei hun neu drwy gyfeirio at ddogfen sydd gyda'r mochyn yn ystod y symud, alluogi'r daliad y symudwyd y mochyn oddi arno ddiwethaf i gael ei adnabod; a
- (b) para nes y bydd y mochyn yn cyrraedd ei gyrchfan.

PART 4

GENERAL IDENTIFICATION REQUIREMENTS

Identification of pigs over 12 months moved off a holding

14. No person may move a pig over 12 months old off a holding unless it is marked with -

- (a) an identification mark; or
- (b) a slapmark that is legible throughout the life of the pig and throughout the processing of its carcass.

Identification of pigs under 12 months moved off a holding

15.-(1) No person may move a pig 12 months old or less off a holding unless it is identified in accordance with article 14 or with a temporary mark.

(2) A temporary mark must-

- (a) either by itself or by reference to a document accompanying the pig during the movement, enable the holding from which the pig was last moved to be identified; and
- (b) last until the pig reaches its destination.

Adnabod moch a symudir i ddaliad o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd

16.-(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n mewnfario mochyn o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd roi tag clust neu datw ar y mochyn sy'n cynnwys yr wybodaeth ganlynol, yn y drefn ganlynol -

- (a) y llythrennau "UK";
- (b) marc cenfaint y genfaint y cyflwynir y mochyn a fewnforiwyd iddi;
- (c) unrhyw wybodaeth arall, os yw'r ceidwad yn dymuno defnyddio gwybodaeth o'r fath; a
- (ch) y llythyren 'F'.

(2) Rhaid i'r tag clust neu'r tatw gael ei roi ar y mochyn o fewn 30 diwrnod ar ôl iddo gyrraedd daliad y gyrchfan, a beth bynnag, cyn iddo gael ei symud o'r daliad hwnnw.

RHAN 5

GOFYNIION ADNABOD Y CHWANEGOL

Gofynion adnabod ychwanegol

17. Mae'r gofynion adnabod ar gyfer symud a bennir yn erthyglau 18 i 20 yn gymwys yn ychwanegol at y gofynion yn Rhan 4.

Symud moch 12 mis oed neu'n iau i ladd-dy

18.-(1) Ni chaiff neb symud mochyn 12 mis oed neu'n iau oddi ar ddaliad i ladd-dy neu farchnad gigydda oni bai ei fod wedi'i farcio â -

- (a) marc adnabod; neu
- (b) slapfarc sy'n ddarllenadwy drwy gydol oes y mochyn a thrwy gydol prosesu ei garcas.

(2) Yn yr erthygl hon, ystyr marchnad gigydda yw marchnad i werthu moch y bwriedir eu cigyddu yn ddiymdroi.

Symud moch i sioeau, arddangosfeydd ac at ddibenion bridio

19. Ni chaiff neb symud mochyn oddi ar ddaliad -

- (a) i sioe neu arddangosfa; neu
- (b) at ddibenion bridio gyda'r bwriad o ddychwelyd y mochyn i'r daliad y cafodd ei symud oddi arno

oni bai ei fod wedi'i farcio â marc adnabod sy'n cynnwys rhif adnabod unigol unigryw yn unol ag erthygl 10(2).

Identification of pigs moved on to a holding from outside the European Union

16.-(1) Any person importing a pig from outside the European Union must apply an eartag or a tattoo to the pig containing the following information, in the following order -

- (a) the letters "UK";
- (b) the herdmark of the herd into which the imported pig is introduced;
- (c) any other information, if the keeper wishes to apply such information; and
- (d) the letter 'F'.

(2) The eartag or tattoo must be applied to the pig within 30 days of its arrival at the holding of destination, and in any event, before it is moved from that holding.

PART 5

ADDITIONAL IDENTIFICATION REQUIREMENTS

Additional identification requirements

17. The identification requirements for the movements specified in articles 18 to 20 apply in addition to the requirements in Part 4.

Movement of pigs 12 months old or less to a slaughterhouse

18.-(1) No person may move a pig 12 months old or less off a holding to a slaughterhouse or slaughter market unless it is marked with -

- (a) an identification mark; or
- (b) a slapmark that is legible throughout the life of the pig and throughout the processing of its carcase.

(2) In this article, slaughter market means a market for the sale of pigs intended for immediate slaughter.

Movements of pigs to shows, exhibitions and for breeding purposes

19. No person may move a pig off a holding -

- (a) to a show or exhibition; or
- (b) for breeding purposes with the intention of returning the pig to the holding from which it was moved

unless it is marked with an identification mark that includes a unique individual identification number in accordance with article 10(2).

Symud moch i'w hallforio

20.-(1) Ni chaiff neb symud mochyn oddi ar ddaliad at ddibenion masnach neu allforio rhyng-Gymunedol oni bai ei fod wedi'i farcio â marc adnabod sy'n cynnwys -

- (a) rhif adnabod unigol unigryw yn unol ag erthygl 10(2); a
- (b) y llythrennau "UK" o flaen marc y genfaint.

(2) Mae paragraff (1) yn gymwys p'un ai tag clust ynteu tatw yw marc adnabod.

RHAN 6

RHEOLEIDDIO SYMUDIADAU

Symud moch

21.-(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n cludo moch gario dogfen, a lofnodwyd gan y ceidwad sy'n pennu -

- (a) y cyfeiriad, gan gynnwys cod post a rhif CPH y daliadau y mae'r moch yn cael eu symud oddi arnynt ac iddynt;
- (b) y dyddiad y mae'r symud yn digwydd;
- (c) y nifer o foch y mae'r ddogfen honno'n eu cwmpasu;
- (ch) marc adnabod pob un o'r moch a symudir; ac
- (d) yn achos symud mochyn o farchnad, rhif lot y moch sy'n cael eu symud.

(2) Rhaid i unrhyw berson sy'n cludo mochyn roi'r ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff (1) i'r ceidwad yn naliad y gyrchfan a rhaid i'r ceidwad ei chadw am o leiaf 6 mis.

(3) Rhaid i geidwad daliad y gyrchfan anfon copi o'r ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff (1) at yr awdurdod lleol, a hynny o fewn 3 diwrnod ar ôl i'r mochyn gyrraedd.

(4) Rhaid i geidwad mochyn sy'n cael ei symud y tu allan i Gymru anfon copi o'r ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff (1) at yr awdurdod lleol ar gyfer y daliad traddodi.

Trwyddedau cerdded i foch anwes

22.-(1) Caiff ceidwad mochyn anwes wneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol am drwydded ("trwydded gerdded") sy'n caniatáu i'r ceidwad symud y mochyn heb gydymffurfio ag erthyglau 5 a 21.

(2) Rhaid i'r person sy'n symud y mochyn o dan y drwydded hon gario copi ohoni drwy gydol y symud.

Movement of pigs for export

20.-(1) No person may move a pig off a holding for the purposes of intra-Community trade or export unless it is marked with an identification mark that includes -

- (a) an unique individual identification number in accordance with article 10(2); and
- (b) the letters "UK" before the herdmark.

(2) Paragraph (1) applies whether the identification mark is an eartag or a tattoo.

PART 6

REGULATION OF MOVEMENTS

Movement of pigs

21.-(1) Any person transporting pigs must carry a document, signed by the keeper which specifies -

- (a) the address, including postcode and CPH number of the holdings from, and to which, the pigs are being moved;
- (b) the date the movement is taking place;
- (c) the number of pigs that the document covers;
- (d) the identification mark of each of the pigs moved; and
- (e) in the case of a movement from a market, the lot numbers of the pigs being moved.

(2) Any person transporting a pig must give the document referred to in paragraph (1) to the keeper at the holding of destination who must retain it for at least 6 months.

(3) The keeper at the holding of destination must, within 3 days of the arrival of a pig, send a copy of the document referred to in paragraph (1) to the local authority.

(4) The keeper of a pig being moved outside Wales must send a copy of the document referred to in paragraph (1) to the local authority for the consigning holding.

Walking licences for pet pigs

22.-(1) A keeper of a pet pig may apply to the Secretary of State for a licence (a "walking licence") allowing the keeper to move the pig without complying with articles 5 and 21.

(2) The person moving the pig under this licence must carry a copy of it throughout the movement.

Daliadau cymeradwy

23.-(1) Daliad y caiff y Cynulliad Cenedlaethol ei gymeradwyo at ddibenion symud moch y bwriedir eu bridio neu eu pesgi yw daliad cymeradwy.

(2) Rhaid i'r gymeradwyaeth bennu pa ddaliadau y gellir symud moch oddi arnynt a pha ddaliadau y gellir eu symud iddynt.

(3) Nid yw symud moch rhwng daliadau sydd wedi'u cymeradwyo o dan yr erthygl hon yn sbarduno'r cyfnod segur yng Ngorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003 (a).

RHAN 7

AMRYWIOL

Dileu marc adnabod

24. Ni chaiff neb, oni bai ei fod yn cael ei awdurdodi gan y Cynulliad Cenedlaethol, ddileu marc adnabod a roddir neu a atodir o dan y Gorchymyn hwn.

Amnewid marc adnabod

25.-(1) Ni chaiff neb, oni bai ei fod yn cael ei awdurdodi gan y Cynulliad Cenedlaethol, amnewid marc adnabod a roddir neu a atodir o dan y Gorchymyn hwn oni bai -

- (a) bod y marc wedi dod yn amhosibl ei ddarllen;
- (b) ei fod wedi'i ddileu am resymau lles; neu
- (c) ei fod wedi mynd ar goll.

(2) Rhaid i unrhyw berson sy'n amnewid marc adnabod naill ai-

- (a) defnyddio marc adnabod union debyg; neu
- (b) defnyddio marc adnabod newydd a chroes-gyfeirio'r marc adnabod newydd â'r marc adnabod gwreiddiol yn y cofnod a gedwir o dan erthygl 5.

Cyflwyno dogfennau a chofnodion

26. Caiff arolygydd ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gofnodion a wneir o dan y Gorchymyn hwn gael eu cyflwyno os gwneir cais ac i gopi neu allbrint ohono gael ei wneud.

Gorfodi

27.-(1) Mae'r Gorchymyn hwn i'w orfodi gan yr awdurdod lleol.

(2) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo, mewn perthynas ag achosion o ddisgrifiad penodol neu unrhyw achos

(a) O.S. 2003/1966 (Cy.211).

Approved holdings

23.-(1) An approved holding is a holding that the National Assembly may approve for the purposes of movements of pigs intended for breeding or growing.

(2) The approval must specify which holdings pigs may be moved from and which holdings they may be moved on to.

(3) A movement of a pig between holdings approved under this article does not trigger the standstill period in the Disease Control (Wales) Order 2003(a).

PART 7

MISCELLANEOUS

Removal of an identification mark

24. No person may, unless authorised by the National Assembly, remove an identification mark applied or attached under this Order.

Replacement of an identification mark

25.-(1) No person may, unless authorised by the National Assembly, replace an identification mark applied or attached under this Order unless it has -

- (a) become illegible;
- (b) been removed for welfare reasons; or
- (c) been lost.

(2) Any person replacing an identification mark must either-

- (a) apply an identical identification mark; or
- (b) apply a new identification mark and cross-refer the new identification mark with the original identification mark in the record kept under article 5.

Production of documents and records

26. An inspector may require any record made under this Order to be produced on demand and a copy or printout of it to be made.

Enforcement

27.-(1) This Order is to be enforced by the local authority.

(2) The National Assembly or the Secretary of State may direct, in relation to cases of a particular description or any particular case, that an enforcement

(a) S.I. 2003/1966 (W.211).

penodol, fod dyletswydd orfodi a osodir ar awdurdod lleol o dan y Gorchymyn hwn i'w gyflawni gan y Cynulliad Cenedlaethol neu gan yr Ysgrifennydd Gwladol (yn ôl y digwydd) ac nid gan yr awdurdod lleol.

Dirymu

28.-(1) Dirymir y canlynol-

- (a) Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002(a);
- (b) Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif. 2) (Diwygio) 2003(b); a
- (c) Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) (Rhif 2) 2003(c).

(2) Dirymir Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud 1995(ch) mewn perthynas â Chymru yn unig.

duty imposed on a local authority under this Order is to be discharged by the National Assembly or the Secretary of State (as the case may be) and not by the local authority.

Revocations

28.-(1) The following are revoked -

- (a) the Pigs (Records, Identification and Movement) (Interim Measures) (Wales) (No.2) Order 2002(a);
- (b) the Pigs (Records, Identification and Movement) (Interim Measures) (Wales) (No. 2) (Amendment) Order 2003(b)
- (c) the Pigs (Records, Identification and Movement) (Interim Measures) (Wales) (No. 2) (Amendment) (No.2) Order 2003(c).

(2) The Pigs (Records, Identification and Movement) Order 1995(d) is revoked in relation to Wales only.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Signed on behalf of the National Assembly for Wales

30 Mawrth 2004

30th March 2004

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Presiding Officer of the National Assembly

30 Mawrth 2004

30th March 2004

Ben Bradshaw

Is-ysgrifennydd Seneddol

Parliamentary Under Secretary of State

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Department for Environment, Food and Rural Affairs

(a) O.S. 2002/2303 (Cy. 228).

(b) O.S. 2003/170 (Cy.30).

(c) O.S. 2003/2763 (Cy.268).

(ch) O.S. 1995/11.

(a) S.I. 2002/2303 (W. 228).

(b) S.I. 2003/170 (W.30).

(c) S.I. 2003/2763 (W.268).

(d) S.I. 1995/11.

ATODLEN

COFNOD SYMUDIADAU'R DALIAD

Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2004

Enw a chyfeiriad y person sy'n cadw'r cofnod

<i>Dyddiad y Symud</i>	<i>Marc adnabod, slapfarc neu farc dros dro</i>	<i>Nifer y moch</i>	<i>Daliad y cawsant eu symud oddi arno</i>	<i>Daliad y cawsant eu symud iddo</i>

SCHEDULE

"HOLDING MOVEMENT RECORD

The Pigs (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2004

Name and address of person keeping the record

<i>Date of movement</i>	<i>Identification mark slapmark or temporary mark</i>	<i>Number of pigs</i>	<i>Holding from which moved</i>	<i>Holding to which moved</i>

OFFERYNNAU STATUDOL

2004 Rhif 996 (Cy.104)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Moch (Cofnodion,
Adnabod a Symud) (Cymru)
2004

STATUTORY INSTRUMENTS

2004 No. 996 (W.104)

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

The Pigs (Records, Identification
and Movement) (Wales) Order
2004

© Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£3.00


W55/04/04

ON

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090917-8



9 780110 909172